# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 8 Gorffennaf 2019

Amser: 12.45 - 16.49

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5460

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Gareth Bennett AC<br>Vikki Howells AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Adam Price AC<br>Jenny Rathbone AC |
| Tystion: | Joe Teape, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br>Huw Thomas, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br>Mandy Rayani, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br>Judith Paget, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan<br>Glyn Jones, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>Martine Price, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Adrian Crompton - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Matthew Mortlock<br>Mark Jeffs |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

## 1 Rheoli apwyntiadau cleifion allanol ar draws Cymru: Trafod yr adroddiad drafft

1.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft, a chaiff fersiwn ddiwygiedig ei llunio i'w thrafod yn ei gyfarfod ar 15 Gorffennaf 2019.

## 2 Gwasanaeth gofal sylfaenol y tu allan i oriau: Trafod yr adroddiad drafft

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft, yn amodol ar ychydig o fân ddiwygiadau a gaiff eu dosbarthu y tu allan i'r Pwyllgor.

## 3 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

3.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 4 Papur(au) i'w nodi

4.1 Nodwyd y papurau.

**4.2 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2018-19**

**4.2 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (21 Mehefin 2019)**

**4.3 Gwasanaeth gofal sylfaenol y tu allan i oriau: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (25 Mehefin 2019)**

**4.4 Rheoli apwyntiadau cleifion allanol ar draws Cymru: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (26 Mehefin 2019)**

## 5 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Sesiwn dystiolaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar ei ymchwiliad i weithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

5.2 Cytunodd y Cyfarwyddwr Cyllid i anfon manylion am gyfanswm y gwariant ar daliadau goramser i staff parhaol mewn cyferbyniad â'r gostyngiad mewn gwariant ar staff asiantaeth.

5.3 Oherwydd cyfyngiadau amser, dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Clercod yn ysgrifennu at y tystion i ofyn nifer o gwestiynau nad oedd amser i'w gofyn yn y cyfarfod.

## 6 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Sesiwn dystiolaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar ei ymchwiliad i weithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

6.2 Oherwydd cyfyngiadau amser, dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Clercod yn ysgrifennu at y tystion i ofyn nifer o gwestiynau nad oedd amser i'w gofyn yn y cyfarfod.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

7.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

8.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 9 Blaenraglen waith: Trafod rhaglen waith yr hydref 2019

9.1 Nododd yr Aelodau y rhaglen waith arfaethedig ar gyfer tymor yr hydref 2019.

## 10 Gwrthsefyll twyll yn y Sector Cyhoeddus: Gwaith dilynol ar y digwyddiad a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf

10.1 Trafododd yr Aelodau y digwyddiad ar wrthsefyll twyll yn y sector cyhoeddus, gan roi eu hadborth i Archwilydd Cyffredinol Cymru.